

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 22.12A

Rheoliadau Gorchmynion Traffig yr Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000

Y Cefndir

Gosodwyd y Rheoliadau Drafft hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mai 2000, fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 24 Mai 2000 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 6 Mehefin 2000.

Nodwyd gwallau teipograffyddol a gwallau drafftio gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau cyn cyfarfod y Pwyllgor ac yn sgil hynny awgrymwyd diwygiadau.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin ar y diwygiadau a nodir isod a chytunodd iddynt gael eu hystyried gan y Cynulliad:-

Y Diwygiadau

Y Nodyn Esboniadol

Diwygiad 1

Symudwch yr atalnod llawn o flaen "(Regulation 2)" ar ddiwedd y pedwerydd paragraff o'r testun Saesneg a'i roi ar ôl y geiriau hynny.

Y paragraff rhagarweiniol (pwerau)

Diwygiad 2

Dilëwch yr atalnod llawn crwydrol ar ddiwedd y testun Cymraeg.

Rheoliad 3

Diwygiad 3

Yn y diffiniad o "bathodyn person anabl" rhowch "wedi ei roi" yn lle "wedi ei gyflwyno".

Y rheswm dros y diwygiad

Bod yn gyson wrth ddefnyddio'r un term yn Gymraeg ar gyfer "issue".

Diwygiad 4

Yn y diffiniad o "lôn beiciau" dilëwch y gromfach ddiangen ar ôl "1994".

Rheoliad 4(2)

Diwygiad 5

Yn yr ail linell rhowch "perthnasol" yn lle "parthnasol" i gywiro'r sillafiad, a dilëwch "os" gan fod hwn yn ymddangos ar ddechrau (a) a (b).

Rheoliad 5

Diwygiad 6

Ar ôl "45," yn y testun Cymraeg rhowch "neu" yn lle "a".

Y rheswm dros y diwygiad:

Er mwyn egluro'r ystyr i gyfateb i'r ystyr yn y testun Saesneg.

Rheoliad 6(1)

Diwygiad 7

Yn y llinell gyntaf rhowch "darpariaethau canlynol" yn lle "darpariaeth ganlynol" yn y testun Cymraeg a rhowch "following provisions" yn lle "following provision" yn y testun

Saesneg.

Y rheswm dros y diwygiad:

Egluro diben y paragraff.

Rheoliad 7(1)

Diwygiad 8

Amnewidiwch "adran" am "adrannau" yn y testun Cymraeg.

Y rheswm dros y diwygiad:

Gan mai dewisiadau eraill yw'r adrannau â rhifau, yr unigol sy'n briodol.

Rheoliad 8(5)(a)

Diwygiad 9

Rhowch "y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym" yn lle "[] 2000" yn y testun Cymraeg a "the day these Regulations come into force" yn y testun Saesneg.

Y rheswm dros ddiwygiad 9:

Er mwyn osgoi ansicrwydd yn nhestun y Rheoliadau.

SUE ESSEX 14 Mehefin 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Gynllunio,

Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

MEMORANDUM OF CORRECTIONS PURSUANT TO STANDING ORDER 22.12A

The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000

Background

These Draft Regulations were laid before the National Assembly for Wales on 26th May 2000, considered by the Business Committee on 24th May 2000 and by the Legislation Committee on 6th June 2000.

Typographical and drafting errors were identified by the Legal Advisers to the Legislation Committee prior to the Committee's meeting and amendments were suggested in consequence.

The amendments set out below were reported to the Legislation Committee at its meeting on the 6th June and agreed by it for consideration by the Assembly:-

Amendments

Explanatory Note

Amendment 1

Move full stop from before to after "(Regulation 2)" at the end of the fourth paragraph of the English text.

Introductory paragraph (powers).

Amendment 2

Remove rogue full stop at the end of the Welsh text.

-

-

Regulation 3

Amendment 3

In the definition of "bathodyn person anabl" replace "wedi ei gyflwyno" with "wedi ei roi".

Reason for the amendment

To make consistent use of the same term in Welsh for "issue".

Amendment 4

In the definition of "lôn beciau" remove the superfluous bracket after "1994".

Regulation 4(2)

Amendment 5

In the second line replace "parthnasol" with "perthnasol" to correct the spelling, and remove "os" as this appears at the beginning of (a) and (b).

Regulation 5

Amendment 6

After "45," in the Welsh text replace "a" with "neu".

Reason for the amendment:

To make the meaning correspond with the meaning in the English text.

Regulation 6(1)

Amendment 7

In the first line replace "darpariaeth ganlynol" with "darpariaethau canlynol" in the Welsh text and replace "following provision" with "following provisions" in the English text.

Reason for the amendment:

To clarify the intention of the paragraph.

Regulation 7(1)

Amendment 8

Substitute "adran" for "adrannau" in the Welsh text

Reason for the amendment:

As the sections numbered are alternatives, the singular is appropriate.

Regulation 8(5)(a)

Amendment 9

Replace "[] 2000" with " y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym" in the Welsh text and "the day these Regulations come into force" in the English text.

Reason for amendment 9:

To avoid uncertainty in the text of the Regulations.

-

SUE ESSEX 14 June 2000

Assembly Secretary for Planning,

Transport and the Environment